IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 81

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Stryd y Bont, Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026

*Gwnaed* *21 Ebrill 2026*

*Yn dod i rym* *25 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod digwyddiad perthnasol, sef Gorymdaith Balchder LHDTC+, yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Stryd y Bont, Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ebrill 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o DdeddfRheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 81

# ROAD TRAFFIC

## The A487 Trunk Road (Bridge Street, Great Darkgate Street & Owain Glyndwr Square, Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026

*Made* *21 April 2026*

*Coming into force* *25 April 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited by reason of a relevant event, namely the LGBTQ+ Pride Parade, being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1),** make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A487 Trunk Road (Bridge Street, Great Darkgate Street & Owain Glyndwr Square, Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 25 April 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c. 11), section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

(i) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu’r gwasanaeth ambiwlans;

(ii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi’r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr “cyfnod y digwyddiad” (“*event period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 11:45 o’r gloch ar 25 Ebrill 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar—

(i) y darn o’r gefnffordd o’r enw Stryd y Bont, Aberystwyth sy’n ymestyn o’i chyffordd â Stryd y Frenhines hyd at ei chyffordd â’r Stryd Fawr;

(ii) y darn o’r gefnffordd o’r enw Y Stryd Fawr, Aberystwyth sy’n ymestyn o’i chyffordd â Stryd y Bont a Heol y Wig hyd at ei chyffordd â Stryd y Popty;

(iii) y darn o’r gefnffordd o’r enw Sgwâr Owain Glyndŵr sy’n ymestyn o’i chyffordd â Stryd y Popty hyd at ei chyffordd â Ffordd y Môr.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

“event period” (“*cyfnod y digwyddiad*”) means that period commencing at 11:45 on 25 April 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(i) any vehicle being used for police, fire or ambulance services purposes;

(ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, the lengths of road concerned;

(iii) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the event period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on—

(i) the length of the trunk road known as Bridge Street, Aberystwyth that extends from its junction with Queen Street to its junction with Great Darkgate Street;

(ii) the length of the trunk road known as Great Darkgate Street, Aberystwyth that extends from its junction with Bridge Street and Pier Street to its junction with Baker Street;

(iii) the length of the trunk road known as Owain Glyndwr Square that extends from its junction with Baker Street to its junction with Terrace Road.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 1 day.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ebrill 2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 21 April 2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government